# Ysgol David Hughes

# Bwletin Disgyblion

# Pupils Bulletin

**05/05/2014**

Gair byr i ganmol aelodau Fforwm David Hughes am gymryd rhan ym mhrosiect Ynys Ynni efo Llais Ni dros y misoedd diwethaf. Mae'r bobl ifanc wedi bod yn wych yn ystod y digwyddiadau hawl i holi ac wedi rhyngweithio yn arbennig o dda gyda'r datblygwyr Ynni.

Maent yn glod i'r ysgol ac yn haeddu pob canmoliaeth am ymgymryd â'r pwnc oedd o dan sylw.
Rwyf wedi atodi dogfen o ddatganiad y wasg, copi o luniau'r digwyddiad Hawl i Holi yn Siambr y Cyngor rhwng y gwleidyddion ac aelodau Llais Ni 4 Ebrill, a ffotocopi o erthygl y Chronicle. Mae'r datganiad wedi ei basio ymlaen i'r papurau bro hefyd.
Diolch i chi am eich cefnogaeth o'r cychwyn i hyrwyddo ac ail-sefydlu'r prosiect o fewn eich ysgol.

Dyma eiriau caredig gan Enid Williams Adran Ieuenctid - 'Hoffwn dy longyfarch di ac aelodau Llais Ni ar y Sesiwn Hawl i Holi ardderchog gynhaliwyd gennych chwi bnawn dydd Gwener. Roedd hi'n braf iawn gweld to newydd wedi gafael yn yr awenau, ac wedi rhoi cyfrif da iawn ohonynt eu hunain wrth drafod Ynys Ynni hefo panel o bobl fwyaf dylanwadol y sir yma.  Roedd yn dda gweld y bobl ifanc yn meithrin hyder wrth i'r sesiwn fynd yn ei blaen, ac yn symud i gael trafodaeth ystyrlon, ar sut maent hwy yn gweld pethau i'r dyfodol yn y sir.  Roedd hi'n amlwg bod yna feddwl wedi mynd i mewn i'r cwestiynau, ac roedd yna sawl un o'r bobl ifanc oedd yn barod i drafod a mynegi barn.'

| | |
|---|---|
| Anwen Jewell | 8F |
| Lara Williams | 7Y |
| Dion Roberts | 7Y |
| Katie Hedges | 8E |
| Siwan Edwards | 8Y |



(Mae Dion Roberts yn absennol o'r llun)
(Dion Roberts is absent in the picture)

This is a brief word to praise the members of the David Hughes Forum for taking part in the Energy Island project with Llais Ni over the last few months.  The young people have been wonderful during the Question Time sessions and have interacted particularly well with the Energy developers.

They are a credit to the school and deserve our praise for undertaking the subject in question.
I have attached a press release document, copies of photographs from the Question Time event in the Council Chamber between the politicians and members of Llais Ni on April 4, and a photocopy of the article from the Chronicle.
The press release has also been passed on to the Welsh community newspapers.
Thank you for your support from the beginning in promoting and re-establishing the project within your school.

Here are some kind words from Enid Williams, the Youth Department – I wish to congratulate you and members of Llais Ni on the excellent Question Time Session held by you on Friday afternoon. It was wonderful to see a new generation taking the reins, and watching them giving a very good account of themselves when discussing the Energy Island with a panel of this county's most influential people. It was good to see the young people increasing in confidence as the session progressed, and moving towards a meaningful discussion on how they see things as regards the future of the county, and a number of the young people were willing to discuss and state their opinions.'

# Ysgol David Hughes

# Bwletin Disgyblion

# Pupils Bulletin

**05/05/2014**

## HWYLIO/SAILING

Mi fydd Daniel Blight 12M a Rowan Edwards 12N yn cynrychioli Prydain Fawr yng Nghystadleuaeth Hwylio Ewrop yn Kiel, Yr Almaen ym mis Mehefin.  Pob lwc i'r ddau.



**Daniel Blight**



**Rowan Edwards**

Daniel Blight 12M and Rowan Edwards 12N will be representing Great Britain in The European Sailing Championships in Kiel, Germany in June.  Good luck to them both.



## GYMNASTEG/GYMNASTICS

Llongyfarchiadau mawr i Zach Price 7N a orffennodd yn 8fed trwy Gymru gyfan yn Rownd Derfynol Cystadleuaeth Ysgolion Tymbl a Llofnaid.



Congratulations to Zach Price 7N who finished $8^{th}$ overall in Wales in the Welsh Gymnastic Schools Tumble and Vault finals.

